21.01.2021

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Blas o awyrgylch y Chwe Gwlad gyda Jiffy, Sarra a Nige

Bydd Carol Vorderman, Scott Quinnell a Richard Harrington ymysg y gwesteion yn cymryd eu lle ar y soffa goch enwog wrth i gyfres **Jonathan** ddychwelyd ar gyfer Y Chwe Gwlad 2021.

Er na fydd cefnogwyr rygbi yn troi strydoedd y brifddinas yn goch ar gyfer y gemau eleni, bydd Jonathan Davies, Nigel Owens a Sarra Elgan yn dychwelyd i'r stiwdio i ddod a blas o awyrgylch diwrnod gêm fawr i stafelloedd fyw'r genedl.

Yn ogystal â chlywed hanesion difyr y gwesteion, bydd digon o gemau heriol ac eitemau doniol i'w mwynhau yn ystod y gyfres. Bydd y gyfres yn cychwyn ar nos Iau 4 Chwefror am 9.00yh, gyda mewnwr Cymru a Gleision Caerdydd, Lloyd Williams, ac un o gewri hanes y crys coch, Scott Quinnell, yn ymuno â'r criw. Hefyd ymysg y gwesteion yn y gyfres hon bydd Alexandra Roach, Owain Wyn Evans, Jonny Clayton, Mali Ann Rees a Hannah Daniel.

Meddai Jonathan Davies: "Yn sicr bydd teimlad gwahanol i'r Bencampwriaeth eleni gyda phob stadiwm yn wag a bydd neb yn teimlo hynny yn fwy na'r chwaraewyr. Bydd e'n rhyfedd iawn peidio gweld cefnogwyr yng Nghaerdydd ar benwythnos Chwe Gwlad.

"Ond mae dal rygbi i'w edrych ymlaen ato ac mae hynny'n golygu un peth – bydd Jonathan yn ôl ar y sgrin. Ac oherwydd na fydd Nigel yn dyfarnu yn y Bencampwriaeth eleni, bydd e gyda ni bob wythnos - yn anffodus!

"Ond ni wir yn edrych ymlaen at ddod nôl at ein gilydd ar gyfer cyfres arall. Bydd gyda ni westeion gwych, fel Carol Vorderman a Scott Quinnell, a bydd digon o hwyl i'w gael gyda nhw. Byddwn ni'n edrych ymlaen at gemau Cymru hefyd, felly gobeithio bydd y tîm yn gallu gwneud y busnes a helpu codi calon y cefnogwyr gartref."

Yn y gyfres hon, bydd Lisa Angharad yn gofyn cyfres o gwestiynau anarferol i sêr rygbi o'r presennol a'r gorffennol, gan gynnwys Lee Byrne, Richard Hibbard a Cerys Hale.

Bydd Jiffy, Sarra a Nige yn parhau i herio'i gilydd i'r eithaf mewn amryw o sialensau, gan gynnwys pobi gyda seren y Great British Bake Off, Michelle Evans-Fecci, gwersi Ffrangeg, a sesiynau arlunio bywyd.

Pa ffordd well i gychwyn penwythnos Chwe Gwlad nag ymuno â'r criw am awr o dynnu coes a straeon doniol? Ymunwch â'r criw am 9.00yh bob nos Iau yn ystod y Bencampwriaeth.

Noddir rhaglen **Jonathan** a darllediadau o gemau Chwe Gwlad tîm Dynion a thîm Menywod Cymru ar Clwb Rygbi Rhyngwladol, gan Isuzu.

**Jonathan**
**Nos Iau, 4 Chwefror, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Avanti ar gyfer S4C**

21.01.2021

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Enjoy a taste of the Six Nations matchday atmosphere with Jiffy, Sarra and Nige

Carol Vorderman, Scott Quinnell and Richard Harrington will be among the guests taking their place on the famous red sofa as **Jonathan** returns for the 2021 Six Nations.

Though the streets of Cardiff will sadly not be turned red by hordes of rugby fans this year, Jonathan Davies, Nigel Owens and Sarra Elgan will be back in the studio to bring a taste of the big match atmosphere to the nation's living rooms.

As well as the lively banter and fascinating stories from the guests, there will be plenty of rugby-themed challenges and hilarious items during the series. The first episode, featuring Wales and Cardiff Blues scrum-half Lloyd Williams and former Wales legend Scott Quinnell, will be shown at 9.00pm on Thursday 4 February, with English subtitles available. Also among the guests in this series will be Alexandra Roach, Owain Wyn Evans, Jonny Clayton, Mali Ann Rees and Hannah Daniel.

Jonathan Davies said: "This year's championship will feel very different to usual with no crowds in the stadiums, and no one will feel that more than the players. It will be very strange not seeing rugby fans take over Cardiff on a Six Nations weekend.

"But there is still rugby to be played and that means one thing – Jonathan will be back on the screen. And because Nigel won't be refereeing in this year's championship, he will be with us every week – unfortunately!

"We are really looking forward to getting back together for another series. We've got some brilliant guests lined up like Carol Vorderman and Scott Quinnell, so we'll have some fun with them. We'll be looking forward to the Wales matches too, so let's hope that the team can play some good rugby and put a smile on the faces of everyone supporting at home."

In this series, Lisa Angharad will be posing a series of unusual questions to rugby stars past and present, including Lee Byrne, Richard Hibbard and Cerys Hale.

Jiffy, Sarra and Nige's ongoing battle for bragging rights will continue with a series of different challenges, including a baking challenge with Great British Bake Off star Michelle Evans-Fecci, French lessons and life drawing sessions.

What better way to kick off your Six Nations weekend than to enjoy an hour of hilarious stories and banter with these three? Join the crew at 9.00pm every Thursday night during the championship.

**Jonathan** and **Clwb Rygbi Rhyngwladol's** coverage of Wales men's and women's teams' Six Nations matches, are sponsored by Isuzu.

**Jonathan**
**Thursday, 4 February, 9.00**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**An Avanti production for S4C**